**PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG**

| | |
|---|---|
| Dyddiad | 15 Mai 2002 |
| Teitl | Adroddiad Cynnydd ar y Mecanwaith Apelau Annibynnol |

Diben

1. Trafodwyd cynigion ar gyfer Mecanwaith Apelau Annibynnol i Ffermwyr yng Nghymru yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Mai 2001. Daeth y mecanwaith yn hollol weithredol ar 31 Hydref 2001. Mae hwn yn adroddiad cychwynnol ar y cynnydd.

Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb ystadegol a chrynodeb polisi o chwe mis cyntaf y weithdrefn apelau yng Nghymru.

Amseru

3. Mae'r papur hwn yn adolygu'r cyfnod rhwng 31 Hydref 2001 a 19 Ebrill 2002.

Y Cefndir

- Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2001 rhoddodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ystyriaeth i'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2000 a oedd yn nodi'r cynigion am fecanwaith apelau annibynnol i ffermwyr yng Nghymru. Nododd yr Aelodau fod y diwydiant ffermio ar y cyfan wedi croesawu'r cynigion a chytunwyd y dylid rhoi'r broses yn ei lle ar gyfer y flwyddyn cynllun IACS 2001 i ffermwyr yng Nghymru.

- Trafodwyd y cynigion ar gyfer mecanwaith apelau annibynnol yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Mai 2001.

- Trafodwyd y Rheoliadau a oedd yn ategu'r weithdrefn apelau yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf 2001 a daethant i rym ar 1 Awst 2001.

- Penodwyd yr 16 aelod i'r Panel Annibynnol ym mis Awst 2001.

- Daeth y mecanwaith apelau yn hollol weithredol ar 31 Hydref 2001 - gan gyflawni un o dargedau Partneriaeth y Llywodraeth.

- Mae'r weithdrefnu yn cynnwys 3 cham gan arwain at adolygiad gan banel annibynnol o 3.

- Dyma'r camau:

> **cam 1 -** apelau'n cael eu cyfeirio at y Swyddog Gweinyddol Rhanbarthol (DEO) er mwyn cael adolygiad o'r penderfyniad cychwynnol
>
> **cam 2 -** os bydd apelwyr yn anfodlon gyda'r penderfyniad a wnaed yng ngham 1, yna gallant wneud cais i Uned Apelau'r Is-adran Rheoli CAP i'w adolygu
>
> **cam 3 -** os bydd apelwyr yn anfodlon gyda'r penderfyniad a wnaed yng ngham 2, yna gallant wneud cais i ysgrifenyddiaeth Apelau'r Adran Amaethyddiaeth er mwyn cael adolygiad terfynol gan y panel annibynnol. Gofynnir i apelwyr dalu blaen-dâl o £50 am wrandawiad ysgrifenedig a £100 am wrandawiad llafar a gellir ad-dalu hyn yn llawn os yw'r apêl yn gyfan gwbl lwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus. Bydd y Panel yn rhoi cyngor i'r Gweinidog ac yna bydd ef yn gwneud y penderfyniad terfynol.

- Y cynlluniau sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer eu hadolygu o flwyddyn cynllun IACS 2001 ymlaen yw:
- Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid (SAPS)
- Atodiad Ardal Lai Ffafriol y Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid (LFA)
- Cynllun Premiwm Arbennig Eidion (BSPS)
- Cynllun Premiwm Buchod Sugno (SCPS)
- Cynllun Taliadau Anarddwys (EPS)
- Cynllun Taliadau Arwynebedd Tir Âr (AAPS)
- Tir Mynydd.

4. Bydd penderfyniadau a wneir mewn perthynas â chwotâu defaid a gwartheg hefyd yn gymwys i gael eu hadolygu o dan y mecanwaith.

5. Gellir adolygu achosion cyn 2001 o dan gamau 1 a 2 ond nid ydynt yn gymwys i gael eu hadolygu gan y panel annibynnol.

6. Gellir cael deunydd darllen am apelau/cwynion a ffurflenni cais cam 2/3 o'r Swyddfeydd Rhanbarthol. Gall ymgeiswyr Cam 1 ysgrifennu'n uniongyrchol gyda'u hapêl/cwyn at eu Swyddog Gweithredol Rhanbarthol.

Ystadegau

Cam 1

7. Rhwng 31 Hydref 2001 a 19 Ebrill 2002, cofrestrwyd 203 o apelau o dan gam 1. O'r rhain, cwblhawyd 125 o adolygiadau (15 yn llwyddiannus, 110 yn aflwyddiannus).

Cam 2

8. O'r 110 o apelau aflwyddiannus yng Ngham 1, mae 44 wedi gwneud cais i'r Uned Apelau o dan gam 2. O'r rhain, cwblhawyd 16 o adolygiadau (2 yn llwyddiannus, 11 yn aflwyddiannus, cafwyd 1 cynnig o daliad ex-gratia oherwydd camweinyddiad a thynnwyd 2 yn ôl am nad oedd colled ariannol i'r ffermwr.) O'r 28 o adolygiadau cam 2 i'w cwblhau o hyd, mae 3 o dan ystyriaeth ar gyfer taliadau ex-gratia.

9. O'r 11 o apelau cam 2 aflwyddiannus, nid yw 2 yn gymwys i'w hadolygu gan y panel annibynnol am eu bod yn achosion cyn 2001. O'r 9 achos ar ôl, gwnaed 2 gais i'w hadolygu gan y panel annibynnol.

Cam 3

10. Cyfarfu un panel a gwnaed argymhelliad i'r Gweinidog wrthod yr apêl.

Mae un achos cam 3 sy'n weddill yn aros am wybodaeth ychwanegol gan yr apelydd.

Materion i'w Hystyried

11. Gwnaed 203 o apelau cam 1 yn ystod chwe mis cyntaf sefydlu'r weithdrefn. Mae hyn mewn blwyddyn lle cafwyd oedi gyda'r archwiliadau o ganlyniad i glwy'r Traed a'r Genau, felly mae'n debygol y bydd cynnydd yn y niferoedd hyn yn y man. Cafwyd mwy o achosion yn y system yng Nghymru yn brod nag yn y system yn yr Alban a sefydlwyd flwyddyn ynghynt.

12. Mae pedwar deg y cant o apelau cam 1 aflwyddiannus wedi'u trosglwyddo i fod yn apelau cam 2. Gall apelau cam 2 fod yn eithriadol o lafurus gan fod pob achos yn cael ei archwilio ar gyfer camweinyddiad posibl ac i weld a ellir mynd ar ôl dewisiadau pellach yn dilyn dadansoddiad o reolau perthnasol y cynllun. Er enghraifft, ehangwyd meini prawf y "camgymeriad amlwg" sy'n cael eu derbyn gan y DU o ganlyniad uniongyrchol i apêl cam 2 diweddar yma yng Nghymru.

13. Mae pob apelydd yn cael papur achos llawn sy'n nodi'r dadleuon ar gyfer derbyn neu wrthod eu hapêl. Mae enghraifft o bapur achos cam 2 yn atodiad 1.

14. Mae'r diwydiant ffermio wedi dweud eu bod yn hoffi'r broses ac maent yn falch gyda'r ffordd y mae papurau achosion unigol bellach yn esbonio'n glir y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau'r swyddogion.

15. Mae'n rhy fuan i werthuso cam 3 - adolygiad gan y panel annibynnol - gan mai dim ond 2 achos sydd wedi'u cyflwyno i'w hadolygu (1.0% o'r apelau a wnaed yng ngham 1). Ymddengys bod llawer o'r ffermwyr yn fodlon gyda'r esboniadau a roddwyd yng ngham 2.

16. Yn ôl dadansoddiad cychwynnol o'r mathau o achosion sy'n cael eu hystyried o dan gamau 1 a 2, mae 25% o apelau cam 1 yn ymwneud â'r Cynllun Premiwm Buwch Sugno. Mae traean o'r rhain yn ymwneud â gwartheg y nodwyd eu bod yn anghymwys ar gyfer taliad am wahanol resymau.

17. Yng ngham 2, mae'r achosion wedi'u taenu'n fwy cyfartal ac nid oes patrwm amlwg.

18. Mae'r weithdrefn yng Nghymru wedi profi i fod yn gadarn ac yn dryloyw. Bydd swyddogion yn chwilio pob dull a modd i helpu'r ffermwr, er y gall hyn gymryd amser am fod angen ymgynghori â chyfreithwyr a rhanbarthau eraill y DU yn aml.

Themâu trawsbynciol

19. Mae pob Adran Amaethyddiaeth yn y DU bellach w edi sefydlu mecanweithiau apelau IACS mewn camau ar gyfer ffermwyr. Mae rhywfaint o wahaniaeth yn y dulliau o weithredu ac mae nifer y camau ar gael i apelwyr hefyd yn amrywio o ranbarth i ranbarth (mae gan yr Alban gam terfynol yn y Llys Tiroedd). Mae'r mecanwaith yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn derbyn achosion mewn perthynas â blwyddyn cynllun 2001 ymlaen, tra yn Lloegr, dim ond achosion o flwyddyn cynllun 2002 gaiff eu hystyried.

20. Ers diddymu'r Bwrdd Ymyrraeth (IB) ym mis Hydref 2001, mae'r Asiantaeth Taliadau Cefn Gwlad (RPA) wedi gweithredu nifer o hen gynlluniau'r Bwrdd Ymyrraeth ledled y DU. Felly cytunwyd mewn egwyddor y bydd yr RPA yn gweinyddu gweithdrefn apelau ar draws y DU ar gyfer y cynlluniau y maent yn eu rheoli nad ydynt yn rhai IACS (er enghraifft Cymorth Storio Preifat). Mae'r manylion yn cael eu negodi ar hyn o bryd, ond deallir y bydd 2 gam i'r weithdrefn hon fwy na thebyg, gan ddiweddu gyda gwrandawiad gan y panel. Bydd aelodau'r Panel o bosibl yn dod o blith aelodaeth y panel apelau IACS cyfredol o bedair rhanbarth y DU.

-

Cydymffurfio

21. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ategu Mecanwaith Apelau IACS wedi'i chynnwys yn Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001 Cynulliad Cenedlaethol Cymru S1 2001 rhif 2537 (W.212). Nid oes unrhyw fater o reoleidd-dra na phriodoldeb i'r Cynulliad. Telir am y costau sy'n gysylltiedig â'r mecanwaith apelau gan gyllideb Rheoli CAP.

Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig

22. Nodi'r cynnydd da a wnaed yn ystod 6 mis cyntaf y weithdrefn apelau a chytuno ar amseriad yr adroddiad nesaf.

Enw Cyswllt

Julia Richards Uned Polisi/Apelau Rheoli CAP, Ffynnon Las Ffôn 02920 681231.